# Grŵp Gwybodaeth Tai, 24 Medi 2020

## Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer Cyfrifiad 2021

### Crynodeb

1. Mae'r cyfrifiad yn gyfrif gorfodol o'r boblogaeth sy'n cwmpasu pob aelwyd a sefydliad cymunedol yn y wlad. Caiff ei gynnal bob deg mlynedd a dyma'r ffynhonnell fwyaf cyflawn sydd gennym o wybodaeth am y boblogaeth, sy'n darparu sylfaen hanfodol ar gyfer cynllunio gan wasanaethau cyhoeddus a busnesau.
2. Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'i swyddfa weithredol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd â'r cyfrifoldeb statudol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Mae swyddogion o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi'n gweithio'n agos â'r ONS ar gynlluniau ar gyfer Cyfrifiad 2021.
3. Mae'r ddeddfwriaeth i gynnal y Cyfrifiad, sef Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2020 a Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 bellach wedi'u pasio gan Senedd Cymru a Senedd y DU.
4. Cynhelir y cyfrifiad nesaf yng Nghymru a Lloegr **ddydd Sul 21 Mawrth 2021**.
5. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y cyfrifiad ar y boblogaeth a'u nodweddion, llety, addysg, crefydd, ethnigrwydd, bywyd gwaith a'u hiechyd yn golygu bod penderfynwyr mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, grwpiau cymunedol, elusennau a busnesau yn gallu gwasanaethu cymunedau ac unigolion yng Nghymru'n well.
6. Disgwylir i'r amcangyfrifon cyntaf o'r boblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr o Gyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi erbyn Mawrth 2022, a bydd gweddill y data ar gael o fewn blwyddyn i'r dyddiad hwnnw.

### Cefndir

7. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, sef Help Shape our Future: The 2021 Census of Population and Housing in England and Wales, a oedd yn amlinellu argymhellion manwl Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr.
8. Cyfrifiad 2021 yw'r cyfrifiad cyntaf i fod ar-lein yn bennaf, a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan. Bydd help, gan gynnwys ffurflenni papur, ar gael i'r rheini sydd ei angen. Bydd canllawiau ar gael ar-lein hefyd i helpu pobl i ateb y cwestiynau.

9. I ddatblygu Cyfrifiad 2021, ymgysylltodd yr ONS yn helaeth â’r rheini sydd â diddordeb, defnyddwyr a'r cyhoedd. Gwnaed hynny drwy gysylltiadau rhyngwladol, pwyllgorau cynghori ffurfiol, gweithgorau pynciol a sianelau fel ymgynghoriadau ONS ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr yma yng Nghymru.
10. Caiff y rheini sydd â diddordeb yng Nghymru eu cynrychioli ar Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad Cymru. Mae ONS hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhwydweithiau ystadegol eraill Llywodraeth Cymru fel Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru a Phanel Defnyddwyr y Trydydd Sector.
11. Mae Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 (Saesneg yn unig), a ddaeth i rym ar 26 Mehefin 2020, yn amlinellu'r gweithdrefnau a'r trefniadau gweithredol sy’n angenrheidiol i gynnal Cyfrifiad 2021.
12. Mae’r Rheoliadau hefyd yn cynnwys enghreifftiau o holiaduron papur Cyfrifiad 2021 a disgrifiadau o’r cwestiynau a’r opsiynau ymateb ar gyfer yr holiadur ar-lein.
13. Rydym yn disgwyl y bydd canlyniadau'r Cyfrifiad ar gael ar ffurf adroddiadau a dadansoddiadau a rhai tablau safonol parod ochr yn ochr â chyfleuster creu tablau hyblyg a fydd yn galluogi dysgwyr i baratoi tablau sy'n bodloni eu gofynion penodol nhw. Er bod y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y canlyniadau eisoes wedi digwydd, disgwylir i ymgynghoriad mwy ffurfiol gael ei gynnal y flwyddyn nesaf ar ganlyniadau'r cyfrifiad a’r dulliau o’u lledaenu.

**Cynnwys y cyfrifiad sy'n ymwneud ag aelwydydd, tai a llety**

14. Er bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau yng Nghyfrifiad 2021 yr un peth, neu'n debyg iawn i'r rheini yng Nghyfrifiad 2011, bwriedir cynnwys cwestiynau newydd yn ymwneud â gwasanaeth blaenorol yn Lluoedd Arfog y DU a chwestiynau gwirfoddol ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.
15. Mae'r cyfrifiad yn cwmpasu aelwydydd preifat a sefydliadau cymunedol (cartrefi gofal, carchardai, llety myfyrwyr etc).
16. Mae Holiadur Aelwydydd y Cyfrifiad (ar gyfer aelwydydd preifat) yn cynnwys cwestiynau ynghylch
    a. maint yr aelwyd a'r math o aelwyd (aelwyd un person, teulu gydag oedolion a phlant, unig riant etc)
    b. y math o lety:
        i. tŷ neu fyngalo (sengl, pâr, teras)
        ii. fflat, fflat deulawr neu randy (pwrpasol, rhan o dŷ a droswyd neu adeilad arall neu mewn adeilad masnachol)
        iii. carafán, cartref symudol neu strwythur dros dro
        iv. hunangynhwysol

c. nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael i'w defnyddio gan yr aelwyd. Mae hyn, ynghyd â gwybodaeth am y rheini sy'n byw ar yr aelwyd, yn fodd i gyfrif mesurau gorlenwi
d. y math o wres canolog gydag opsiynau newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar neu bympiau gwres);
e. deiliadaeth:
    i. wedi'i berchnogi yn ei gyfanrwydd,
    ii. wedi'i berchnogi gyda morgais neu fenthyciad,
    iii. rhanberchnogaeth,
    iv. wedi'i rentu gan landlord (cymdeithas dai, cydweithrediaeth dai, ymddiriedolaeth elusennol neu landlord cymdeithasol cofrestredig; cyngor neu awdurdod lleol; landlord preifat neu asiantaeth gosod eiddo; cyflogwr aelod o'r aelwyd; perthynas aelod o'r aelwyd; arall), neu
    v. yn byw heb dalu rhent.

17. Mae'r Cyfrifiad hefyd yn fodd i gael amcangyfrif ar gyfer 2021 o nifer yr anheddau a'r anheddau a feddiannir.
18. Sylwer na fydd y Cyfrifiad yn holi cwestiynau ynghylch nifer yr ystafelloedd yn y llety mwyach. Gweler y blog diweddaraf hwn (Saesneg yn unig) gan yr ONS ynghylch sut y maent yn bwriadu defnyddio data gweinyddol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyfrif nifer yr ystafelloedd.

**Lle gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

19. Mae gan yr ONS ddwy wefan sy'n darparu mwy o fanylion am y cynlluniau ar gyfer Cyfrifiad 2021. Mae gwefan Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad (Saesneg yn unig) yn disgrifio'r cynlluniau a'r cynnydd, ac mae'r wefan Cyfrifiad.gov.uk yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith cyhoedd y bydd y Cyfrifiad yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf. Noder fod yr ONS bellach wedi dechrau cyflogi Rheolwyr Ymgysylltu'r Cyfrifiad, Swyddogion Cyswllt y Cyfrifiad a Staff Maes y Cyfrifiad, a fydd yn sicrhau bod y Cyfrifiad yn cael ei gynnal yn ddidrafferth.

Sue Leake

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Medi 2020